Archwilio Cymru
Audit Wales

Ydych chi'n pryderu am gamweddau neu gamymarfer yn y gweithle?

Paratowyd y daflen hon i'ch helpu chi i gymryd y camau nesaf. Bydd yn arbennig o berthnasol, efallai, i'r rhai sy'n gweithio i gorff cyhoeddus yng Nghymru, fel bwrdd iechyd lleol, awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru.

Datgeliadau chwythu'r chwiban

Cyflwynwyd Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) i ddiogelu gweithwyr sy'n pryderu am achosion o gamweddau yn y gweithle ac sydd am 'chwythu'r chwiban'. Mae'r Ddeddf yn gymwys i'r rhan fwyaf o weithwyr ac mae'n cynnwys gweithwyr a gyflogir dros dro neu drwy asiantaeth.

Os bydd gweithwyr yn cael eu trin yn anffafriol mewn unrhyw ffordd ar ôl iddynt 'chwythu'r chwiban', gallant ddwyn achos yn erbyn eu cyflogwr mewn Tribiwnlys Cyflogaeth.

Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru

O dan y Ddeddf, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn 'berson rhagnodedig' a all ymdrin â phryderon ynghylch 'cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus'.

Yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus cysylltiedig a chyrff cyhoeddus y mae'n eu noddi, cyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG. Bwrdd statudol yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n darparu staff ac adnoddau eraill i gyflawni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'i waith. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â gwaith archwilio ariannol (archwilio cyfrifon) cyrff cyhoeddus ac mae'n archwilio'u perfformiad (sicrhau gwerth am arian).

Mae pwerau a chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a darnau eraill o ddeddfwriaeth.

Nid oes unrhyw ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law. Yn wir, dim ond os yw hynny'n gydnaws â'i bwerau a'i ddyletswyddau archwilio a'i bwerau a'i ddyletswyddau cyfreithiol perthnasol y caiff ymchwilio i ddatgeliadau (nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw bwerau ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu a yw am ymchwilio ai peidio ar ôl ystyried a yw'r datgeliad yn berthnasol i'w bwerau a'i ddyletswyddau archwilio. Er ein bod yn cydnabod bod y pryderon a ddaw i law'n bwysig i'r rhai sy'n chwythu'r chwiban, rhaid i ni sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i ystyried pryderon nad ydynt yn berthnasol i'n gwaith archwilio, nac yn treulio gormod o amser yn ymdrin â mân faterion.

Lleisio pryder

Mae'n arfer da i gyflogwyr fod â'u gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol eu hunain, a dylai'r rhain esbonio sut y gallwch leisio pryder. Os oes gan eich cyflogwr weithdrefnau o'r fath, dylech ddilyn y rhain yn gyntaf oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Os yw'ch pryderon yn ymwneud â materion y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol amdanynt fel person rhagnodedig, ac os na allwch leisio'ch pryderon yn y gweithle, neu os na chaiff y broblem ei datrys ar ôl i chi wneud hynny, gall fod yn briodol i chi ddwyn y mater i sylw'r Archwilydd Cyffredinol.

Os byddwch yn lleisio'ch pryder wrth 'berson rhagnodedig' yn hytrach na'ch cyflogwr, mae'n bosibl y bydd Tribiwnlys Cyflogaeth yn penderfynu ei fod yn ddatgeliad gwarchodedig os:

- yw'n rhesymol i chi gredu bod camwedd neu gamymddwyn yn digwydd, wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn y gweithle;
- ydych yn gwneud eich datgeliad er lles y cyhoedd;
- ydych yn credu bod y wybodaeth, ac unrhyw honiadau y mae'n ei chynnwys, yn wir, cyhyd ag y gwyddoch; neu os
- oes gennych reswm i gredu mai cyfrifoldeb y person rhagnodedig yw'r mater dan sylw.

Fodd bynnag, nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i benderfynu a yw'r datgeliad yn un gwarchodedig (gan mai mater i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yw hynny), nac i ymyrryd mewn cysylltiadau cyflogaeth, ac ni all roi cyngor cyfreithiol.

Nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw bŵer i ddisgyblu unigolion, nac i ddwyn erlyniad troseddol yn erbyn neb ar ôl cwblhau unrhyw ymchwiliad. Dim ond rheolwyr y sefydliad dan sylw, neu gorff proffesiynol perthnasol all gymryd camau disgyblu. Yn achos ymddygiad troseddol, dylech roi gwybod i'r heddlu (neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith perthnasol arall). Nid asiantaeth gorfodi'r gyfraith yw'r Archwilydd Cyffredinol. Os byddwch yn tynnu sylw'r Archwilydd Cyffredinol at unrhyw fater a all fod yn ymddygiad troseddol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gyfeirio at yr heddlu, neu unrhyw asiantaeth gorfodi'r gyfraith perthnasol arall.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymchwilio i honiadau o drosedd, fel twyll, dim ond os ymddengys y byddai ymchwilio i'r drosedd honedig yn hwyluso ein gwaith, yn gysylltiedig â'n gwaith neu'n gydnaws â'n gwaith, a dim ond os yw'n hyderus na fyddai'r gwaith dan sylw'n niweidiol i ymchwiliad gorfodi'r gyfraith.

Cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol

Er mwyn ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol â'ch pryderon, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol drefniadau ar waith i ganiatáu i bobl leisio pryder yn gyfrinachol wrth staff hyfforddedig a phrofiadol. Gallwch gysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy'r ffyrdd canlynol:

Ysgrifennu at:

Swyddog y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd
1 Cwr y Ddinas
Strydd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: chwythu.chwiban@archwilio.cymru

Ffôn: 02920 320522

Caiff unrhyw ohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol ei thrin yn gyfrinachol, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Mae'n bwysig eich bod yn sylweddoli bod angen i ni gysylltu â chyrff archwilio perthnasol a thrydydd partïon eraill yn aml wrth ymdrin â phryderon. Mae'n bwysig eich bod hefyd yn sylweddoli na fydd modd i ni osgoi datgelu'ch enw, o bosibl, er mwyn ymateb i'ch pryderon.

Er enghraifft, os ydych wedi sôn wrth eich cyflogwr eisoes am eich pryderon, mae'n debyg y bydd yn amlwg pwy sydd wedi datgelu'r wybodaeth wrthym.

Mae'n bosibl y bydd hefyd angen i ni ddatgelu neu brosesu'ch manylion personol er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (neu i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol eraill neu er lles y cyhoedd) heb eich caniatâd. Ni fyddem yn torri'r Ddeddf Diogelu Data drwy wneud hynny.

Os byddwn yn penderfynu ymchwilio i'ch pryderon, byddwn yn anfon sylwadau atoch ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, pan fo modd. Weithiau, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y gyfraith yn ein hatal rhag gwneud hynny.

Os ydych am i'r Archwilydd Cyffredinol gysylltu â chi am unrhyw reswm arall, efallai oherwydd eich bod yn pryderu am werth am arian fel trethdalwr yn hytrach na fel gweithiwr, ewch i wefan Swyddfa Archwilio Cymru i gael rhagor o wybodaeth neu ffoniwch 029 2032 0500.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac fe wnawn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Pwyntiau i'w cofio

Cofiwch bob amser mai tyst, ac nid achwynydd fyddwch chi pan fyddwch yn chwythu'r chwiban. Rhaid i chi fod ag amheuaeth resymol ond nid tystiolaeth bendant i gefnogi'ch pryderon. Os ydych yn amau achos o gamweddau yn y gweithle, dylech ddilyn rhai canllawiau syml.

Cofiwch:

1. Nodi'ch pryderon ar unwaith. Nodwch unrhyw fanylion perthnasol, fel yr hyn a ddywedwyd mewn sgyrsiau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, y dyddiad, yr amser ac enwau'r bobl dan sylw.
2. Rhannwch eich amheuon â rhywun sydd â'r awdurdod a'r profiad priodol. Mae gan y rhan fwyaf o gyflogwyr bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a dylai'ch adran Adnoddau Dynol neu Bennaeth yr Adran Archwilio Mewnol fedru rhoi rhagor o fanylion i chi.
3. Ewch ati i ymdrin â'r mater ar unwaith os ydych yn teimlo bod sail i'ch pryderon. Bydd unrhyw oedi'n golygu bod eich sefydliad neu'r rhai sy'n defnyddio'ch gwasanaethau'n parhau i ddioddef neu mae perygl cynyddol y byddant yn dioddef.

Peidiwch â:

1. Gwneud dim.
2. Bod ofn codi'r mater. Ni chaiff eich cyflogwr eich trin yn anffafriol os byddwch yn lleisio pryderon. Rhaid i'r sefydliad sy'n eich cyflogi drin y mater mewn modd sensitif a chyfrinachol.
3. Cyhuddo unrhyw unigolyn yn uniongyrchol na sôn wrthynt am eich amheuon.
4. Ceisio ymchwilio i'r mater eich hun, yn enwedig os ydych yn pryderu am drosedd neu am dorri dyletswydd gyfreithiol. Mae rheolau arbennig ar gyfer casglu tystiolaeth a gaiff ei defnyddio mewn achosion troseddol. Os bydd unrhyw un sy'n anghyfarwydd â'r rheolau hyn yn ceisio casglu tystiolaeth, gallai ddinistrio'r achos.
5. Sôn am eich amheuon wrth unrhyw un nad oes ganddynt yr awdurdod priodol.

Rhagor o gyngor a chanllawiau

Os ydych yn ystyried gwneud datgeliad ac am wybod rhagor am eich hawliau cyfreithiol, dylech ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.

Os hoffech gyngor ynghylch gwybodaeth a ddiogelir o dan y Ddeddf, a'r ffordd orau o leisio pryder, byddai'n syniad da ffonio Protect (elusen annibynnol) ar 020 3117 2520 neu ewch i'w gwefan.

Os ydych yn pryderu am dwyll neu lygredigaeth yn y GIG, dylech ffonio Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG ar 0800 028 4060 neu ewch i wefan Llinell Adrodd am Dwyll yn y GIG i gael rhagor o wybodaeth. Fel arfer, dylai staff y GIG ffonio'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG yn gyntaf ond, os ydynt yn teimlo na allant wneud hynny, gallant gysylltu â ni.

Os ydych yn pryderu am gamweddau nad ydynt yn ymwneud â chynnal busnes cyhoeddus, gwerth am arian, twyll neu lygredigaeth, byddai'n ddefnyddiol, o bosibl, i chi fynd i wefan chwythu'r chwiban: rhestr o gyrff a phobl ragnodedig i gael manylion pobl ragnodedig eraill. Hefyd, mae'n bosibl y gallai Public Concern at Work roi cyngor i chi am y sefydliadau mwyaf priodol i chi gysylltu â nhw.

Rydym yn annog pobl sydd â nam (anabledd) i gysylltu â ni os oes angen addasiadau rhesymol arnynt. Gallai hynny olygu, er enghraifft, y bydd angen i ni baratoi gwybodaeth mewn ffont mawr neu ar ffurf glywedol. Mae croeso i chi ofyn am ragor o fanylion.

Dyma'n manylion cysylltu:

Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru